**Beirniadaeth Tlws yr Ifanc Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2017**

Y dasg i'r cerddorion ifanc dan un ar hugain oed oedd cyfansoddi darn cerddorol - unai'n lleisiol neu'n offerynnol. Fe ddaeth chwech ymgais i law a phob un yn cynnig rhywbeth gwahanol. Dyma air am bob un yn y drefn y cyrhaeddon nhw.

Fe ddewisodd 'Ffrind Mamgu' eiriau Caryl Parry Jones, Dyro Wên i mi, er mwyn creu darn newydd ar gyfer y llais. Mae'r cordiau'n syml a chyfeiriad y gân yn glir. Mae'r alaw yn gwbl ganadwy ac mae yma ôl meddylfryd creadigol. Gwendid y darn yw'r cyfeiliant. Yn anffodus oherwydd y cordio syml, mae'r cyfeiliant braidd yn undonog. Mae modd amrywio hyn ar ôl y pennill cyntaf er mwyn cynnal diddordeb y gwrandawyr ymhellach.

Mae 'Taith' gan 'Fflei' yn ddarn offerynnol ar gyfer ffidil, soddgrwth a phiano. Mae'r piano yn gosod y sylfaen yn gadarn a'r offerynnau llinynnol yn ffurfio'r alawon. Llwydda'r cyfansoddwr i ddefnyddio technegau fel cwestiwn ac ateb yn effeithiol gan roi'r cyfle hefyd i'r offerynnau unigol gael lle blaenllaw hwnt ac yma. Mae 'Fflei' wedi meddwl am farciau deinameg ac wedi cynnig adran ganol wahanol. Gallai'r diweddglo fod yn llawer mwy trawiadol petai'r cyfansoddwr yn meddwl am gyfeiliant cryfach sy'n fwy blodeuog.

Carol Nadolig gawn ni gan 'Byriesin' yn defnyddio geiriau 'I Fethlehem'. Mae yma ddeuawd lleisiol hyfryd a'r cyfan yn llifo'n rhwydd. Mae'r cyfansoddwr wedi cymryd sylw manwl a sensitif o'r geiriau ac mae'n mentro hefyd yn enwedig ar ddiwedd y penillion. Mae diwedd y penillion yn anarferol ar gyfer y math yma o gân, ond mae'n gweithio, ac yn gwneud i'r gwrandawr fod eisiau clywed mwy. Mae'r cyfan hefyd wedi ei osod yn daclus ac mae'r cyfan yn gwbl ganadwy. Ond yr awgrym i Byriesin ydi i fynd nôl ac edrych ar drefn y cordiau - mae ambell gord yn ymddangos braidd yn sydyn a ddim cweit yn dilyn y cord blaenorol.

Mae 'Chwalu'r Felan' gan Wmffra Lloyd Webber yn sicr yn cyfleu'r teitl i'r dim! Mae yma gyfuniad o offerynnau chwyth, pres, allweddellau a chit drymiau. Mae'r cyfan yn rhythmig yn yr arddull 'blues' priodol ac er bod yma gyfuniad o offerynnau, mae pob un yn cael lle blaenllaw wrth i'r darn ddatblygu. Mae ôl ymdrech a gwaith yma ac er bod ambell adran yn brysur, mae'r offerynnau wedi eu cydbwyso'n dda er mwyn sicrhau nad yw'r cyfan yn swnio'n gymysglyd.

Dyma gyfanwaith effeithiol iawn o safon uchel.

Pumawd Pres yw ymgais 'David Bowie'. Yn sicr mae yma ôl gwaith trylwyr a dealltwriaeth pur dda o'r offerynnau. Mae yma sawl symudiad sy'n cynnig her ac yn cynnal diddordeb. Ar adegau, mae'r cyfan yn rhy brysur a hwnt ac yma, mae'r alawon yn cael eu colli gan fod yr offerynnau sy'n cyfeilio'n rhy amlwg. Mae angen i 'David Bowie' ystyried sut all marciau deinameg fynd i'r afael â hyn ond yn sicr mae yma addewid bendant.

Darn i'r delyn gafodd ei gyflwyno gan 'Morgan'. Unwaith eto mae'n cynnig her i'r telynor fyddai'n perfformio gan fod yma sawl techneg amrywiol gan gynnwys taro'r seinfwrdd, sawl glissandi a chwarae rhythmig drwyddi draw. Mae yma ôl meddwl ac mae'n llwyddo i gyfleu naws y syrcas yn ei ddefnydd o'r technegau gwahanol. Mae'r rhythm 'syncopated' drwyddi draw yn rhoi thema ganolog i'r darn. Er hynny, byddai derbyn trac MP3 o'r darn hwn wedi cryfhau ymgais 'Morgan' er mwyn gallu gwerthfawrogi'r darn yn llawn.

Diolch i'r chwech am gystadlu - yn sicr, mae yna rinweddau addawol i bob un. Mae'n rhaid beirniadu ar sail pa ddarn sydd fwyaf gorffenedig. Ma' un cyfansoddwr ar y blaen yn hynny o beth ac wedi cadw'n driw i'r arddull gafodd ei chyflwyno. Does dim dwywaith felly fod Tlws yr Ifanc eleni yn mynd i Wmffra Lloyd Webber am ei gyfansoddiad grymus a gafaelgar.

**Huw Foulkes**

**Mawrth 2017**